



Eich cyf: WQ/95376

29 Ionawr 2025

Annwyl Siân,

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'r cwestiwn ysgrifenedig a gyflwynwyd gennych ar 6 Ionawr.

A fydd adroddiad Iaith Cyf a gomisiynwyd gan Cadw ar ddulliau gwarchod enwau lleoedd Cymraeg, gan gynnwys dulliau statudol, yn trafod enwau lleoedd yn yr amgylchedd naturiol? (WQ95376)

Gan weithredu ar y cyd â Cymraeg 2050, derbyniodd Iaith Cyf gomisiwn gan Cadw i gasglu gwybodaeth fanwl am ble, sut a pham mae enwau lleoedd wedi newid ledled Cymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Nod yr ymchwil oedd creu corff cadarn o dystiolaeth a fyddai'n llywio camau nesaf Llywodraeth Cymru wrth hyrwyddo a diogelu enwau lleoedd Cymru. Yr amgylchedd adeiledig yw prif ffocws yr ymchwil, ac mae'r canlyniadau'n debygol o roi dealltwriaeth fwy clir i ni ynghylch sut mae enwau eiddo a busnesau yn newid ledled Cymru. Dim ond sylw cyfyngedig sydd wedi ei roi i bwnc eang a chymhleth enwau topograffigol yn yr adroddiad.

Yn gywir,

Mark Drakeford AS/MS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg
Cabinet Secretary for Finance and Welsh Language

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.